OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 884 (Cy.128)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cynlluniau wedi eu Cymeradwyo) (Cymru) 2011

Gwnaed - - - -	*21 Mawrth 2011*
Yn dod i rym - -	*31 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 33, 34, 35, 36, 38, 39 a 47(5) o Ddeddf Addysg Uwch 2004(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 47(4) o'r Ddeddf honno(**3**), gosodwyd copi drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cynlluniau wedi eu Cymeradwyo) (Cymru) 2011, a deuant i rym ar 31 Mawrth 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Deddf 2004" ("*the 2004 Act*") yw Deddf Addysg Uwch 2004.

Cynnwys cynlluniau

3. Rhaid i gynllun o dan adran 33(1) o Ddeddf 2004 osod amcanion y sefydliad, y penderfynwyd arnynt gan ei gorff llywodraethu, mewn perthynas â'r canlynol—

(**1**) 2004 p.8. Diwygiwyd adrannau 34(1) a 38(4) gan baragraffau 31 a 33 o Atodlen 14 i Ddeddf Addysg 2005 (p.18).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel y'i cyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38) a gynhwysir yn Rhan 3 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) Mae swyddogaeth gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau yn rhinwedd adran 33(3) a 34 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 yn sylweddol yr un fath â'r swyddogaeth gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau yn rhinwedd adran 33(2) a 34 o'r Ddeddf honno, a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae adran 47(4) yn darparu na chaiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud offeryn statudol sy'n cynnwys (naill ai ar eu pen eu hun neu ynghyd â darpariaethau eraill) reoliadau yn rhinwedd adran 33(2) neu 34 onid oes copi drafft o'r rheoliadau wedi ei osod gerbron dau Dŵr Senedd a'i gymeradwyo ganddynt drwy benderfyniad. Yn rhinwedd paragraff 34(2) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), mae'r ddarpariaeth yn gymwys i arfer, gan Weinidogion Cymru, swyddogaeth gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o'r fath fel pe bai unrhyw gyfeiriad at y naill neu'r llall o ddau Dŵr Senedd yn gyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(a) hybu cyfle cyfartal; a

(b) hybu addysg uwch.

4. Rhaid i gynllun gynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu'r sefydliad—

(a) ymgymryd â'r mesurau a nodir yn y cynllun er mwyn denu nifer fwy o geisiadau gan ddarpar fyfyrwyr sy'n aelodau o grwpiau nad oes cynrychiolaeth ddigonol iddynt mewn addysg uwch ar yr adeg y cymeradwyir y cynllun, neu sicrhau yr ymgymerir â'r mesurau hynny a nodir yn y cynllun;

(b) darparu cymorth ariannol a nodir yn y cynllun ar gyfer myfyrwyr sy'n ymgymryd â chwrs yn y sefydliad, neu sicrhau bod y cymorth ariannol hwnnw yn cael ei ddarparu;

(c) gwneud y trefniadau a nodir yn y cynllun i roi ar gael i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â chwrs yn y sefydliad a darpar fyfyrwyr sy'n dymuno ymgymryd â chwrs o'r fath wybodaeth ynghylch cymorth ariannol sydd ar gael iddynt o unrhyw ffynhonnell;

(ch) gwneud y trefniadau a nodir yn y cynllun i roi gwybod i unrhyw ddarpar fyfyriwr cyn i'r myfyriwr ymrwymo i ymgymryd â chwrs yn y sefydliad am swm agregedig y ffioedd y bydd y sefydliad yn eu codi am gwblhau'r cwrs;

(d) monitro, yn y dull a nodir yn y cynllun, gydymffurfiad y corff â darpariaethau'r cynllun a'r cynnydd y mae'n ei wneud tuag at gyflawni ei amcanion a nodir yn y cynllun yn unol â rheoliad 3; ac

(dd) darparu i'r awdurdod perthnasol(**4**) yr wybodaeth honno y mae'n rhesymol i'r awdurdod perthnasol ofyn amdani o bryd i'w gilydd.

Cymeradwyo cynlluniau

5. Rhaid i'r awdurdod perthnasol arfer ei swyddogaethau'n unol â'r weithdrefn a ganlyn os yw corff llywodraethu sefydliad yn gwneud cais i'r awdurdod perthnasol am gymeradwyaeth i gynllun arfaethedig:—

(a) rhaid i'r awdurdod perthnasol roi gwybod i'r corff llywodraethu cyn pen cyfnod rhesymol o amser a yw'r awdurdod perthnasol yn cymeradwyo'r cynllun neu a yw â'i fryd ar beidio â chymeradwyo'r cynllun, gan roi rhesymau yn yr achos olaf hwn;

(b) os yw'r awdurdod perthnasol yn rhoi gwybod i'r corff llywodraethu o dan baragraff (a) ei fod â'i fryd ar beidio â chymeradwyo'r cynllun, rhaid iddo roi gwybod i'r corff llywodraethu y caiff, cyn pen cyfnod rhesymol o amser, wneud y naill neu'r llall neu'r naill a'r llall o'r canlynol—

(i) gwneud sylwadau i'r awdurdod perthnasol o ran pam y dylai'r awdurdod perthnasol gymeradwyo'r cynllun, neu

(ii) addasu'r cynllun;

(c) os yw'r corff llywodraethu'n gweithredu'n unol â pharagraff (b), rhaid i'r awdurdod perthnasol, cyn pen cyfnod rhesymol o amser, ystyried y sylwadau neu'r addasiadau (neu'r sylwadau a'r addasiadau) i'r cynllun ac, ar ôl iddo eu hystyried, roi gwybod i'r corff llywodraethu a yw'n cymeradwyo'r cynllun ai peidio;

(ch) os nad yw'r corff llywodraethu'n gweithredu'n unol â pharagraff (b) cyn pen cyfnod rhesymol o amser, rhaid i'r awdurdod perthnasol, cyn pen cyfnod rhesymol pellach o amser, roi gwybod i'r corff llywodraethu a yw'n cymeradwyo'r cynllun ai peidio.

(**4**) Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi ei ddynodi fel yr awdurdod perthnasol o ran Cymru yn rhinwedd Deddf Addysg Uwch 2004 (Awdurdod Perthnasol) (Dynodi) (Cymru) 2011 (OS 2011/658 (Cy.96)).

6. Wrth wneud unrhyw benderfyniad sy'n ymwneud â chymeradwyo cynllun, rhaid i'r awdurdod perthnasol roi sylw—

(a) i ddiogelu mynediad teg at addysg uwch; a

(b) i ddymunoldeb amddiffyn rhyddid academaidd ac yn benodol ryddid sefydliadau i benderfynu—

(i) ar gynnwys cyrsiau penodol a'r modd y cânt eu haddysgu, eu goruchwylio neu eu hasesu;

(ii) ar y meini prawf ar gyfer derbyn myfyrwyr a phenderfynu i gymhwyso'r meini prawf hynny mewn achosion penodol.

7. Os yw'r awdurdod perthnasol wedi cymeradwyo cynllun, rhaid i'r sefydliad ei gyhoeddi mewn dull sy'n ei wneud yn hwylus o hygyrch i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr.

Parhad cynlluniau

8. Dwy flynedd yw'r cyfnod hwyaf o amser y caniateir i gynllun sydd wedi ei gymeradwyo fod mewn grym.

Amrywio cynlluniau

9. Caiff y corff llywodraethu ar unrhyw adeg cyn pen y cyfnod y mae cynllun wedi ei gymeradwyo mewn grym wneud cais i'r awdurdod perthnasol am gymeradwyaeth i amrywiad ar y cynllun. Os bydd y corff llywodraethu'n gwneud cais, y weithdrefn fel a nodir yn rheoliadau 5, 6 a 7 yw'r weithdrefn i'w dilyn, fel pe rhoddid yn lle pob enghraifft o'r gair "cynllun" yn y rheoliadau hynny y gair "amrywiad" .

Gorfodi cynlluniau

10.—(1) Yn y rheoliad hwn ystyr "gofyniad" yw gofyniad a bennir yn adran 28(1)(a) neu (c) o Ddeddf 2004.

(2) Rhaid i'r awdurdod perthnasol weithredu'n unol â'r weithdrefn a ganlyn mewn cysylltiad â rhoi unrhyw hysbysiad o dan adran 38(1) o Ddeddf 2004–

(a) os yw'r awdurdod perthnasol o'r farn y gall corff llywodraethu sefydliad fod wedi methu â chydymffurfio â gofyniad, rhaid iddo roi gwybod i'r corff llywodraethu am y ffaith honno, gan nodi'r gofyniad yn benodol, a rhoi i'r corff llywodraethu gyfnod rhesymol o amser ar gyfer gwneud sylwadau;

(b) os yw'r corff llywodraethu'n gwneud sylwadau cyn pen y cyfnod priodol, rhaid i'r awdurdod perthnasol ystyried y sylwadau ac, ar ôl eu hystyried, roi gwybod i'r corff llywodraethu a yw wedi ei fodloni bod y corff llywodraethu wedi methu â chydymffurfio â gofyniad, ac os felly, rhaid iddo nodi'r gofyniad yn benodol;

(c) os nad yw'r corff llywodraethu'n gwneud sylwadau cyn pen y cyfnod priodol, rhaid i'r awdurdod perthnasol roi gwybod i'r corff llywodraethu a yw wedi ei fodloni bod y corff llywodraethu wedi methu â chydymffurfio â gofyniad, ac os felly, rhaid iddo nodi'r gofyniad yn benodol;

(ch) os yw'r awdurdod perthnasol wedi rhoi gwybod i'r corff llywodraethu ei fod wedi ei fodloni bod y corff llywodraethu wedi methu â chydymffurfio â gofyniad penodedig, caiff roi gwybod i'r corff llywodraethu ei fod â'i fryd ar hysbysu'r corff llywodraethu o dan adran 38(1) o Ddeddf 2004 y bydd yn gwrthod cymeradwyo, yn ystod y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad, gynllun newydd o dan adran 34 o Ddeddf 2004, pan ddaw'r cynllun presennol i ben;